
# Cadw'n Fyw

Roderick Hunt   Alex Brychta

Pïod

DRAKE






Aeth Wilff â phabell draw i dŷ Dids. Roedd y ddau yn mynd i gysgu ynddi.

"Dydw i 'rioed wedi cysgu mewn pabell o'r blaen," meddai Dids. " 'Sgwn i sut deimlad fydd o?"

"Bydd yn hwyl," meddai Wilff. "Ond bydd eisio pecyn cadw'n fyw."




Roedd gan Wilff bentwr o bethau mewn bag teithio.

"Caiff y rhain fynd i mewn i'r pecyn cadw'n fyw," meddai. "Bydd eu hangen i gadw'n fyw y tu allan. Mae gen i fflachlamp, pelen o linyn, cynfas plastig, siocled a bocs cymorth cyntaf. Be arall fyddwn ni ei angen i gadw'n fyw?"



"Mae gen i ddrych, pensel a llyfr nodiadau, a chreision," meddai Dids.

Daeth Cad allan efo ambarél. "Efallai y bydd angen hwn. Mae'n mynd i fwrw glaw," meddai.

"Fedri di ddim cael ambarél mewn pecyn cadw'n fyw," meddai Wilff. "Paid â bod yn hurt, Cad."



Y noson honno dechreuodd hi fwrw glaw. Roedd hi'n bwrw gormod i Dids a Wilff fedru cysgu yn y babell.

Yn y diwedd, dywedodd Mam y caen nhw wersylla ar lawr llofft Dids.

"Fydd dim angen pecyn cadw'n fyw yma," meddai Cad.






Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Tynnwyd y plant i mewn i antur newydd.

"Os ydi hon yn mynd i fod yn antur cadw'n fyw," meddai Cad, "rydw i'n mynd â'r ambarél."

"Fydd dim angen ambarél ar antur cadw'n fyw," gwaeddodd Dids. "Paid â bod yn hurt."



Roedd Ann wedi blino ac wedi 'laru. Roedd y wagenni wedi bod yn sownd ers deuddydd.

Roedd teulu Ann yn mynd ar daith hir. Roedden nhw'n mynd i wlad newydd. Roedden nhw'n mynd â phopeth yn y wagen. Roedden nhw wedi dod o bell ac roedd ganddyn nhw ffordd bell i fynd.



"Aros yn agos at y fintai wagenni," meddai tad Ann. "Paid â chrwydro ymaith. Mae'n hawdd mynd ar goll yn y coed."

Wrandawodd Ann ddim ar ei thad. "A i i gasglu aeron gwyllt," meddyliodd. "A i ddim ar goll os nad a i'n bell."



Cafodd Ann hyd i lawer o lus yn y goedwig, ond arhosodd hi ddim yn agos at y fintai wagenni. Aeth ymlaen ac ymlaen.

"Rhaid imi fynd yn ôl," meddyliodd o'r diwedd. Ond methai â chael hyd i'r ffordd. Edrychai'r coed i gyd 'run fath. "O na! Rydw i ar goll!" meddyliodd.





Roedd Ann wedi dychryn. Wyddai hi ddim pa ffordd i fynd. Yn sydyn, caeodd rhywbeth ar ei ffêr. Trap oedd o, a fedrai hi ddim ei dynnu i ffwrdd.

"Help! Help!" gwaeddodd Ann. "Helpwch fi, rywun."

Ond roedd Ann yn bell i ffwrdd o'r fintai wagenni a fedrai neb ei chlywed hi.



Roedd Llwynog Bach wedi blino ac wedi 'laru. Roedd o wedi bod yn y goedwig drwy'r dydd yn chwilio am fêl. Ond doedd o ddim wedi cael hyd i ddim.

Bob tro roedd o wedi cael hyd i goeden efo nyth gwenyn ynddi, roedd y mêl wedi mynd.

Rŵan roedd ar goll.



Gwyddai Llwynog Bach pam nad oedd mêl yno. Roedd arth frown yn y coed. Roedd yr arth wedi mynd â'r mêl i gyd.

Roedd ar Llwynog Bach ofn. Roedd yn bell iawn o'r pentref, a doedd yr arth ddim yn bell. "Rhaid bod yn ofalus," meddyliodd Llwynog Bach.




Clywodd Llwynog Bach Ann yn galw. "Mae rhywun mewn helynt," meddyliodd. Rhedodd nerth ei draed drwy'r coed.

Cafodd hyd i Ann wedi ei dal yn y trap.

Ceisiodd Llwynog Bach agor y trap, ond doedd o ddim yn ddigon cryf.





Roedd yr arth yn bell i ffwrdd, ond clywodd hithau Ann yn galw. Safodd ar ei dwy goes ôl a synhwyro'r awyr.

Gallai'r arth synhwyro arogl Ann a Llwynog Bach. Arth biwis oedd hi. Doedd hi ddim yn hoffi pobl yn ei rhan hi o'r goedwig.



Aeth yr allwedd hud â Cad, Dids a Wilff i'r coed lle roedd Llwynog Bach yn helpu Ann.

Roedd Llwynog Bach ac Ann wedi rhyfeddu. Welson nhw erioed blant fel y rhain o'r blaen.

Roedd Cad, Dids a Wilff wedi rhyfeddu hefyd.

"Maen nhw mewn helynt," meddai Dids.



Gwelai'r plant fod Ann wedi ei dal yn y trap. Rhedon nhw i helpu Llwynog Bach. Gyda'i gilydd agoron nhw geg y trap.

"Ych!" meddai Dids. "Am hen beth hyll."

"Mae'r trapwyr yn eu defnyddio i ddal anifeiliaid," meddai Llwynog Bach. "Mae'r trapiau'n greulon."




Roedd y trap wedi brifo coes Ann. Rhoddodd Wilff rwymyn arni.

Malodd Cad a Llwynog Bach y trap â charreg.

"Mae'n syniad da i falu'r trap," meddai Llwynog Bach. "Ond ddylen ni ddim gwneud cymaint o sŵn. Bydd yr arth yn ein clywed ni."





Yn sydyn, clywodd y plant sŵn rhuo. Daeth yr arth allan o'r coed a rhedeg tuag atyn nhw. Roedd pawb wedi dychryn.

"O help!" gwaeddodd Wilff. "Dydi'r arth yma ddim yn edrych yn gyfeillgar iawn. Rhedwch!"

"Fedra i ddim," meddai Ann.



Cafodd Cad syniad. Agorodd yr ambarél a'i gau. Yna, agorodd o, a'i droelli rownd a rownd.

Stopiodd yr arth. Roedd arno ofn yr ambarél. Doedd o erioed wedi gweld dim byd tebyg. Yna rhuodd a rhedodd i ffwrdd.






"Roedd hynna'n ardderchog," meddai Dids. "Ond sut gwyddet ti fod ar eirth ofn ambarél?"

"Wyddwn i ddim," meddai Cad.

Dechreuodd fwrw glaw. "Rŵan pwy sy'n dweud na fedrwch chi gael ambarél mewn pecyn cadw'n fyw?" meddai hi. "Dowch o dan yr ambarél."




Wedi i'r glaw beidio, aeth y plant ymlaen.

Cyrhaeddon nhw afon. Dywedodd Llwynog Bach wrth bawb am gadw'n ddistaw. Gorweddodd ar y lan, rhoi ei fraich yn y dŵr a dal pysgodyn.

"Gwych," meddai Dids. "Fedrwn i ddim gwneud hynna."






"Sut medrwn ni ei goginio?'" gofynnodd Ann. "Does gynnon ni ddim tân."

Ond gwnaeth Llwynog Bach dân. Gwnaeth y tân â bwa a phric.

"Mae hynna'n wych, hefyd," meddai Dids. "Mae o wedi cynnau tân heb fatsys."



Roedd hi'n tywyllu ac yn dechrau bwrw glaw eto. Cododd Dids a Wilff y babell. Rhoddodd Cad ac Ann y cynfas plastig i fyny i wneud cysgod.


Coginiodd Llwynog Bach y pysgodyn ac eisteddodd pawb o amgylch y tân. Bwytaon nhw'r pysgodyn, a llus Ann. Yna bwytaon nhw'r siocled.



Dywedodd Ann hanes ei thad a'i mam. Dywedodd sut roedd y fintai wagenni wedi mynd yn sownd.

Dechreuodd Ann grio. "Efallai na wela i fy mam a 'nhad byth eto," meddai.

"Paid â phoeni," meddai Wilff. "Cawn ni hyd iddyn nhw."



Yn sydyn, cipiodd Cad yr ambarél a sefyll. Rhedodd allan a dechrau gweiddi. "Help!" galwodd. "Rydan ni wedi'n hamgylchynu."

Neidiodd pawb ar eu traed.

Troellodd Cad yr ambarél rownd a rownd. "Ewch o'ma! Ewch o'ma!" gwaeddodd.






Chwarddodd Llwynog Bach. Chwarddodd pawb. "Dyma fy nhad," meddai. "Roedd o'n chwilio amdana i."

"Mae'n ddrwg gen i," meddai Cad.

"Roeddit ti'n ddewr iawn," meddai tad Llwynog Bach.

"Oedd, dychrynodd hi'r arth," meddai Llwynog Bach.



Dywedodd y plant hanes eu hanturiaethau yn y coed. Sonion nhw am y trap. Chwarddodd tad Llwynog Bach pan ddywedon nhw wrtho fel roedd ar yr arth ofn ambarél Cad.

"Mae'n hawdd mynd ar goll yn y coed," meddai.



Dywedodd Ann hanes y fintai wagenni. "Bydd fy mam a 'nhad yn poeni amdana i," meddai. "Byddan nhw'n meddwl 'mod i wedi cael fy lladd gan arth."

"Paid â phoeni," meddai tad Llwynog Bach. "Fyddwn ni fawr o dro yn cael hyd iddyn nhw."



Yn y bore, cafodd tad Llwynog Bach hyd i'r fintai. Roedd tad a mam Ann yn falch fod Ann yn ddiogel. "Buon ni'n chwilio ac yn chwilio amdanat ti yn y coed," meddai ei thad. "Fedren ni ddim cael hyd iti, felly roedden ni'n meddwl iti gael dy ladd gan arth."


"Bron i hynny ddigwydd," meddai Ann.



Roedd y wagenni'n sownd o hyd. "Rydan ni wedi bod fel hyn ers tri diwrnod," meddai tad Ann.

Edrychodd Llwynog Bach ar ei dad. "Fedrwn ni i gyd helpu i'w tynnu nhw allan?" meddai.


Siaradodd tad Llwynog Bach efo'i ddynion. Yn fuan, tynnon nhw'r wagenni allan o'r mwd.



O'r diwedd, roedd y fintai wagenni yn medru mynd ymlaen. Gwyliodd y plant nhw am amser hir.

"Hoffwn i ddim bod ar y fintai wagenni yna," meddai Cad. "Bydd hi'n siwrnai galed. Does dim siopau i brynu bwyd. A does dim meddyg os byddan nhw'n sâl."






Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yn bryd i'r antur orffen.

Rhoddodd Cad yr ambarél i Llwynog Bach. "Cei di ei ddefnyddio i ddychryn yr eirth," chwarddodd.

Edrychodd Cad ar Wilff a Dids. "Mae ambarél yn beth handi mewn pecyn cadw'n fyw," meddai hi.



Roedd y plant wedi mwynhau'r antur cadw'n fyw. Y diwrnod wedyn, codon nhw'r babell. Roedd Cad eisiau gwneud i Dids a Wilff chwerthin. "Edrychwch be sy y tu allan!" meddai Cad. "A does gen i ddim ambarél!"

"O na," chwarddodd Wilff. "Be wnawn ni, heb ambarél Cad i'n hamddiffyn ni?"

Argraffwyd yng Nghymru

# Cadw'n Fyw

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

Coeden
Ddarllen
Rhydychen
Cam 9



Pïod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-327-X

ISBN 0 86 174327 X

DRAKE

9 790861 743277